



Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb 2019/20

**(Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis
Mawrth 2020)**

Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb 2019/20

1. Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2019-20. Dyma'n nawfed adolygiad dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion:

- Y nawfed adolygiad cynnydd ar gyfer Amcanion Cydraddoldeb 2016 - 2020,
- Gwybodaeth am gydraddoldeb,
- Gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant,
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'n dyletswyddau deddfwriaethol.

2. Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb

Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol o gynnydd yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2020 a darparodd pob adran fanylion ynghylch ei chynnydd. Mae'r holl wybodaeth hon i'w gweld yn Atodiad 1.

Mabwysiadwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-24 gan y cyngor ym mis Mawrth 2020. Mae ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Fersiwn Hawdd ei Darllen, fersiwn Darlennydd Sgrîn, Adroddiad Cynnwys ac Adolygiad Ystadegol ar gael yma.](#)

3. Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Rydym wedi adeiladu ar ein gwybodaeth am bobl â nodweddion gwarchoddedig sy'n byw yn Abertawe drwy gynnal Adolygiad Ystadegau Cydraddoldebau ym mis Ionawr 2020. Cynhaliwyd yr adolygiad i gyfeirio'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-24. Ystyriom hefyd y dystiolaeth o '*A yw Cymru'n Decach?*', canfyddiadau Ymchwiliad Craffu i Gydraddoldebau ac adborth o nifer o ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu i gyfeirio'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-24.

Prif ddiben yr adolygiad oedd archwilio amrywiaeth poblogaeth Abertawe, asesu sut mae wedi newid ac (cyhyd ag y bo'n bosib) archwilio'r hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn nodi'r holl ffynonellau data perthnasol ac yn cyflwyno crynodeb o ystadegau allweddol ar gyfer Abertawe (gan gynnwys cymariaethau cenedlaethol ac amrywiadau lleol ynn Abertawe), newidiadau dros amser a thueddiadau posib yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r wybodaeth ar gyfer pob grŵp o bobl â nodweddion gwarchoddedig; oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, bechiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol.

Rydym hefyd wedi cynnal a datblygu gwybodaeth ddemograffig a gynhwysir ar we-dudalennau ystadegau'r cyngor. Mae'n cynnwys data cymdeithasol a demograffig lleol o'r Cyfrifiad a ffynonellau swyddogol eraill a chrynodeb o ymchwil ddiweddar gan y SYG sy'n cynnwys amcangyfrifiadau rhwng dau gyfrifiad o boblogaeth Abertawe yn ôl ethnigrwydd, gwlad enedigol a chenedligrwydd.

Cafodd ein proffiliau o ardaloedd lleol, sy'n cynnwys ystod o ddata ystadegol a gwybodaeth arall am ardaloedd lleol yn Abertawe, gan gynnwys data sy'n ymwneud ag agweddau eraill ar gydraddoldeb, eu diweddarau ym mis Ionawr 2020. Ar hyn o bryd, mae proffiliau ar gael ar gyfer y sir, y 36 Ward, yr Ardaloedd Etholaethol lleol, Ardaloedd Cymunedol (fel y'u diffinnir yn Asesiad Llesiant Lleol 2017, fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) ac Ardaloedd Cyflwyno (ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf gynt). Mae cynnwys a ffynonellau gwybodaeth y proffiliau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn enwedig cyn pob set newydd, ac mae disgwyl i'r fersiynau nesaf gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2020.

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb er mwyn cyfeirio'n Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb (AECau); mae hyn yn amrywio yn ôl pwnc, perthnasedd a ffocws yr AEC. Rydym hefyd yn parhau i adeiladu ar ein prosesau monitro cydraddoldebau a'u gwella er mwyn casglu a dadansoddi data am ein staff a'n cwsmeriaid. Fel rhan o'r broses hon, anogwyd staff a chwsmeriaid i ddarparu gwybodaeth am unrhyw nodweddion gwarchoddedig a materion cydraddoldeb. Mae'r holl wybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol ac yn ddiennw. Er nad yw staff a chwsmeriaid yn cael eu ddatgelu unrhyw wybodaeth bersonol am nodweddion gwarchoddedig, rydym yn parhau i'w hannog i ddatgelu ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r rheswm pam y mae angen gwybodaeth arnom i sicrhau ein bod yn trin pobl yn gyfartal. Rydym yn adeiladu ar ein hymagwedd gorfforaethol i ddatblygu lens cydraddoldeb i'n holl fusnes craidd a'n prosesau penderfynu, gyda'r nod o sicrhau bod cydraddoldeb yn ganolog i bopeth a wnawn.

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau pob person, gan gydnabod y berthynas rhwng hawliau a chydraddoldeb, wrth sicrhau y darperir gwasanaethau'n deg i bawb. Erys hawliau dynol yn rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol; rydym yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth ac yn sicrhau bod hawliau'n ganolog i'r broses benderfynu ar draws pob cyfarwyddiaeth yn yr awdurdod lleol. Mae mesurau i atgyfnerthu hyn yn cynnwys rhoi sylw dyladwy i CCUHP, gwaith sy'n bodoli eisoes ar Ddatganiad Dulyn i gynnal hawliau pobl hŷn a gwaith arfaethedig i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol.

4. Gwybodaeth am Gyflogaeth a Hyfforddiant

Gweler Atodiad C am yr wybodaeth hon. Mae'r cyngor yn cydnabod bod bylchau o hyd yn ein data cyflogaeth a hyfforddiant oherwydd hawl gweithwyr i beidio â darparu'r wybodaeth. Fodd bynnag, rydym yn gweithio gyda'n gweithwyr a'n hundebau i wella'r data ac rydym yn parhau i weithio ar ein

systemau i gasglu data o'r fath. Mae'r cyngor yn buddsoddi mewn system rheoli gweithwyr sy'n seiliedig ar gwmwl, y caiff ei chyflwyno yn ystod 2021/22; dylai hyn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn haws wrth i'r system gael ei hymgorffori ac aeddfedu. Yn ogystal, er y gofynnwyd amdani, nid oes gofyn i weithwyr ddarparu gwybodaeth ynghylch eu nodweddion ac mae llawer yn dewis peidio â gwneud hyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda gweithwyr i'w hannog i ddarparu'r wybodaeth hon a bydd y cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Undebau Llafur i chwilio am ffyrdd eraill i annog staff i wneud hynny. Yn ogystal, mae ein hadroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi'i gyhoeddi. Mae ein [Hadroddiad am y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ar gael yma](#).

5. Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall sy'n berthnasol i ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn 2019-20.

5.1 Cynghorwyr Hyrwyddo

Mae Cynghorwyr Hyrwyddo yn parhau i weithio gyda grwpiau â nodweddion gwarchoddedig a'u cefnogi ac yn hyrwyddo materion cydraddoldeb. Maent yn gyfrifol am amrywiaeth eang o faterion cydraddoldeb gan gynnwys: Anabledd a Mynediad at Wasanaethau, Amrywiaeth, LGBT (Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol), Noddfa a chynhwysiant yn ogystal â themâu ehangach megis lechyd a Lles, Gofalwyr a Cham-drin Domestig. Mae'r Cynghorwyr Hyrwyddo yn ceisio darparu llais ar gyfer grwpiau neu faterion nad ydynt yn draddodiadol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, y mae angen eu cadw'n flaenllaw ym musnes y cyngor ac i sicrhau y cânt eu hystyried pan ddatblygir polisi'r cyngor a phan wneir penderfyniadau. Un o'r argymhellion allweddol a gafwyd yn adroddiad yr Ymchwiliad Craffu i Gydraddoldebau oedd adolygu cyfranogaeth Cynghorwyr Hyrwyddo yng ngolau'r ymchwiliad a datblygu rôl a dull cyfathrebu clir gyda'r grŵp Cydraddoldeb Strategol a grwpiau a fforymau cydraddoldeb eraill.

[Am restr lawn o'r Cynghorwyr Hyrwyddo, cliciwch yma](#)

5.2 Panel Ymchwilio Craffu – Adroddiad Cydraddoldebau

Cynhaliwyd ymchwiliad manwl i gydraddoldebau gan y Panel Ymchwiliad Craffu yn 2019. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Cabinet ym mis Medi 2019 a derbyniwyd adroddiad a chynllun gweithredu arfaethedig gan y Cabinet ar ôl hynny ym mis Tachwedd 2019. Mae'r cynllun gweithredu yn amlinellu bwriadau'r cyngor mewn perthynas â mynd i'r afael â'r 18 o argymhellion sydd yn yr adroddiad ac fe'i defnyddiwyd fel sail i'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-24.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i roi'r cynllun gweithredu o'r adroddiad Ymchwiliad Craffu ar waith. Datblygwyd a chytunwyd y cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys gofyniad i roi grŵp Cydraddoldeb

Strategol hollbwysig ar waith ar draws y cyngor. Mae'r Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol wedi chwarae rôl weithredol yn yr adolygiad ac wrth ddatblygu polisi sy'n ymwneud â chydaddoldeb gan gynnwys datblygiad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-24, Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu'r cyngor a Fframwaith Cydgynhyrchu Strategol Corfforaethol y cyngor.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd o ran datblygu Strategaeth Gofalwyr. Lanswyd fforwm dan arweiniad cymheiriaid i rieni a gofalwyr plant ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol ym mis Hydref 2019. Nod y Fforwm yw rhoi mwy o lais i rieni a gofalwyr yn y ffordd y caiff gwasanaethau yn Abertawe eu cynnal, ac fe'i crëwyd mewn modd cydgynhyrchiol gyda'r cyngor ac amrywiaeth o bartneriaid. Mae Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg hefyd wedi bod yn datblygu Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol, ac mae trefniadau ar y gweill i ddatblygu strategaeth leol.

Rydym hefyd yn y broses o adolygu gwefan y cyngor ac yn gweithio mewn modd cydgynhyrchiol gyda'r Grŵp Cyswllt Anabledd i wneud gwelliannau. Rydym wedi gwella hygyrchedd gwefan y cyngor i fodloni safon AA gan ddefnyddio arweiniad 2.1 Consortiwm y We Fyd-eang. Rydym hefyd wedi cyflwyno tagiau ar bob delwedd y mae eu hangen ar gyfer darllynyddion sgrîn, neu pan gaiff delweddau eu llwytho. Rydym hefyd wedi adolygu a llunio arweiniad newydd i olygyddion y we i sicrhau bod cynnwys yn hygyrch. Er enghraifft, defnyddio tablau dim ond pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol a chadw tablau mor fach ac mor syml â phosib.

Mae gwaith wedi cychwyn hefyd ar ddatblygu rhagor o adnoddau hawdd eu darllen a Saesneg clir. Comisiynwyd rhywfaint o hyfforddiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar sut i lunio dogfennau hawdd eu darllen ac roedd y grŵp Cydraddoldebau Adrannol wedi hwyluso sesiwn gyda Phobl yn Gyntaf Abertawe ar sut i lunio adnoddau Saesneg hawdd eu darllen/cynllunio. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn gweithio'n gydgynhyrchiol gyda Pobl yn Gyntaf Abertawe i ddatblygu nifer o fformatau Hawdd eu Darllen/Saesneg Clir ac mae ein Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu gorfforaethol, ddiwygiedig yn darparu dolenni i ganllawiau pellach ar lunio dogfennau Hawdd eu Darllen/Saesneg Clir. Roedd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-24 yn cynnwys fersiwn hawdd ei darllen o'r cynllun, holiadur yn Gymraeg ac yn Saesneg a fersiynau darllynydd sgrîn o ddogfennau.

Mae gwaith cynnar yn mynd rhagddo hefyd o ran treialu'n Fframwaith Cydgynhyrchu Corfforaethol Strategol. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n gweithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth i nodi ardaloedd peilot yn y Gyfarwyddiaeth Lleoedd er mwyn datblygu rhaglen dreigl a phecyn cymorth. Nod yr ymagwedd hon yw adeiladu ar waith a wnaed eisoes gan y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy fabwysiadu ymagwedd gydgynhyrchu at yr adolygiad ac wrth gomisiynu gwasanaethau. Rydym hefyd wedi datblygu rhagor o gyfleoedd i oedolion ag anableddau, gan gynnwys ystyried ehangu'n sylfaen menter gymdeithasol. Roedd Adolygiad Comisiynu'r gwasanaethau dydd wedi argymhell ystyried datblygu mentrau cymdeithasol fel rhan o'r

detholiad o opsiynau yn y dyfodol. Rydym wedi cefnogi rhieni unigolyn ag anabledd dysgu i sefydlu Cwmni Budd Cymunedol a datblygu menter gymdeithasol. Rydym hefyd wedi gwneud cais i Gronfa'r Economi Sylfaenol er mwyn sefydlu mentrau bach a chydweithfeydd yn Abertawe. Mae Abertawe'n Gweithio a rhaglenni cyflogadwyedd cysylltiedig wedi parhau i ddarparu cefnogaeth bersonoledig gan fentoriaid cyflogadwyedd i 121 o ddinasyddion.

Mae gwaith ar y gweill hefyd i ddatblygu rhaglen dreigl cyfathrebiadau mewnol i hyrwyddo hyfforddiant, herio barnau neu agweddau negyddol a darparu negeseuon cadarnhaol i staff. Mae ein dathliadau ar gyfer 50 mlwyddiant Abertawe fel dinas wedi cynnwys nifer o weithgareddau gyda phartneriaid i hyrwyddo amrywiaeth, gan gynnwys: Mis Hanes LGBT, Diwrnod Rhyngwladol y Merched, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Coffáu'r Holocaust. Pride Abertawe, Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Merched, Eid Abertawe yn y parc, Diwrnod Ymwybyddiaeth o'r Byddar, Mis Ymwybyddiaeth Rhyngffydd ac Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl. Mae enghreifftiau o astudiaethau achos yn cynnwys:

Astudiaeth Achos 1: Mis Hanes LGBT

Roedd dathliadau'n cynnwys gweithgareddau i hyrwyddo amrywiaeth ar draws y ddinas yn ystod mis Chwefror 2020. Agorodd y Glynn Vivian arddangosfa newydd o weithiau a grëwyd gan grŵp ieuenctid LGBT+ Good Vibes o YMCA Abertawe ar y cyd ag Artistiaid Cysylltiol y Glynn Vivian. Yn y digwyddiad hwn cafwyd cyfle i ymuno mewn gweithdai creadigol, cyfansoddi cerddi a newid cerdd yn gelf testun mewn gweithdy gwneud printiau. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys 'Straeon Amgen' Tallulah Bandersnatch - Taith o'r Oriol, cerddoriaeth fyw gan Truly Kaput, tapas a bar.

Astudiaeth Achos 2: Mis Hanes Pobl Dduon

Fel rhan o Fis Hanes Pobl Dduon yng Nghymru, cynhaliodd Adain Celfyddydau Theatr y Grand Abertawe noson o gerddoriaeth, adrodd straeon a siaradwyr gwadd ar 8 Hydref, 2019. Y thema ar gyfer eleni oedd *Movers, Shakers and Legacy Makers* a'r nod oedd dathlu ac arddangos pobl ifanc ddu a'u rolau fel gwneuthurwyr hanes a cheidwaid y dyfodol. Roedd y digwyddiad yn nodi cyfraniad milwyr gwrywaidd a benywaidd lleiafrifoedd ethnig o Gymru i'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys rhaglen o gerddoriaeth a siaradwyr, gyda bwyd Affricanaidd a Charibiaidd yn cael ei weini a gweithdy drymio i blant.

Astudiaeth Achos 3: Pride Abertawe 2019

Cefnogom ail ddathliad Pride Abertawe ym mis Mai 2019. Cafwyd wythnos o ddigwyddiadau dathlu gan gynnwys: Diwrnod Gŵyl Gelfyddydau yn y Glynn

Vivian, Cabaret Pride mewn arddull theatr gerdd, digwyddiad i arddangos ieuencid, digwyddiad Pride Abertawe ar y Llawr Dawnsio a noson drag cyn yr wyl gyda Farrah Moan a breninesau Drag eraill. Roedd Gorymdaith Pride yn cynnwys gorymdaith arddull carnifal, adloniant byw, stondinau, bwyd stryd, gweithgareddau, adloniant gyda'r hwyr a gŵyl ar lawnt Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Yr orymdaith hon oedd yr un fwyaf yn Abertawe gyda thros 1000 o bobl yn ymddangos ynddi a llawer mwy yn mwynhau'r olygfa ac yn cymryd rhan yn y digwyddiad a'r gweithgareddau. Dangosodd data o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau fod dros 4,710 o bobl wedi cymryd rhan yn y dathliadau, a oedd yn cynnwys stondinau adloniant a gwybodaeth. Bu rhwydwaith staff LGBT+ y cyngor yn rhan o'r trefniadau ategol ar gyfer yr orymdaith a buont yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r digwyddiad o fewn y cyngor.

Astudiaeth Achos 4: Diwrnod y Rhuban Gwyn

Eleni, cynhaliwyd digwyddiad i nodi Diwrnod y Rhuban Gwyn (a elwir hefyd yn Ddiwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn erbyn Merched) yn Theatr y Grand ar 25 Tachwedd 2019. Mae gwisgo rhuban gwyn yn arwydd o beidio byth â chymryd rhan mewn trais yn erbyn merched, ei gydoddef neu aros yn dawel amdano. Ar Ddiwrnod y Rhuban Gwyn, anogir bechgyn a dynion i wisgo rhuban gwyn am wythnos neu ddwy ar ôl hynny i gefnogi ac amlygu'r addewid hwnnw. Cynhaliodd Cyngor Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot ddigwyddiad cynyddu ymwybyddiaeth rhanbarthol, lle gwahoddir y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i ddod ynghyd i ddangos eu cefnogaeth a rhannu gwybodaeth am wasanaethau lleol. Roedd y digwyddiad yn cynnwys stondinau gan ddarparwyr arbenigol o'r trydydd sector, yr heddlu, iechyd ac awdurdodau lleol. Daeth Lee Trundle o Glwb Pêl-droed Abertawe iddo hefyd i ddangos cefnogaeth, a chafwyd adloniant byw gan gantorion lleol. Gwahoddwyd grŵp o bobl ifanc â gwybodaeth am ein rhaglen 'perthnasoedd iach' i gymryd rhan hefyd yn ein hymgyrch 'Hands are not for Hurting'.

Astudiaeth Achos 5: Canolfan Ddiwylliannol a Digidol yn Theatr y Grand

Eleni rydym wedi prydlesu adain celfyddydau Theatr y Grand i Gyngor Hil Cymru er mwyn cefnogi datblygiad canolfan ddiwylliannol a digidol. Rydym wedi cydweithio â Chyngor Hil Cymru ers amser maith a hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda Dinasoedd Unedig a llywodraeth leol mewn rhaglen Dinasoedd Peilot i ddatblygu cyfranogiad diwylliannol fel rhan o broses creu dinas gynaliadwy ac rydym wedi datblygu cynllun tymor hir. Nod y Ganolfan Ddiwylliannol a Digidol yw darparu lle ymarfer a chynhyrchu i sefydliadau celfyddydol bach Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig (BAME) a chynyddu cyfranogaeth pobl â nodweddion gwarchodedig mewn gweithgareddau a rhaglenni diwylliannol a chelfyddydol. Mae'r ganolfan hefyd yn cynnwys darpariaeth newydd ar gyfer dysgu cymunedol/profiadau digidol.

Astudiaeth Achos 6: Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl

Cefnogodd staff Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl gyda'r Sefydliad Iechyd Meddwl rhwng 13 Mai a 19 Mai drwy wisgo rhywbeth gwyrdd a phostio lluniau ar gyfryngau cymdeithasol. Y thema eleni oedd Delwedd y Corff - sut rydym yn meddwl ac yn teimlo am ein cyrff. Nodwyd y digwyddiad fel rhan o'n strategaeth Lles a Chynnwys y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sy'n cael ei datblygu. Roedd y strategaeth hefyd yn cynnwys treialu cynigion lles am dri mis, o gyfarfodydd tîm gwahanol, creu lle, dim oriau craidd, tylino'r corff, gweithgareddau chwaraeon ac ymweliadau gan Izzy y ci therapi.

Astudiaeth Achos 7: Iechyd meddwl a lles gweithwyr - Coronafeirws

Gwasanaeth rheoli straen a chwrsela i gefnogi iechyd meddwl a lles yr holl weithwyr. Mae'r gwasanaeth yn darparu mynediad hawdd a chyflym at gwrsela dros y ffôn a chymorth holi ac adrodd, atgyfeiriadau mewn perthynas â staff rheng flaen a/neu'r rheini a flaenoriaethwyd oherwydd Coronafeirws, gyda galwad yn ôl o fewn 24 awr, cyswllt er mwyn i reolwyr drefnu gwiriadau/trafodaethau iechyd meddwl a lles wythnosol, sesiynau holi/gwrando o ran digwyddiadau tyngedfennol i weithiwr sydd wedi profi digwyddiad trawmatig neu'n dyst iddo, a digwyddiadau tyngedfennol ar-lein.

Astudiaeth Achos 8: Diwrnod AIDS y Byd

Bu'r grŵp staff LGBT+ yn gwerthu rhubanau coch eleni er lles yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol ar Ddiwrnod AIDS y Byd a gynhelir ar 1 Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'n darparu cyfle i bobl ar draws y byd i uno yn y frwydr yn erbyn HIV, i ddangos cefnogaeth i bobl sy'n byw â HIV ac i gofio am y rheini sydd wedi marw o afiechydon sy'n gysylltiedig ag AIDS. Diwrnod AIDS y Byd, a sefydlwyd ym 1988, oedd y diwrnod iechyd byd-eang cyntaf.

Astudiaeth Achos 9: Digwyddiad i ddathlu 50 mlynedd St Helen's Road - parti stryd am ddim

Parti stryd am ddim yn St Helen's Road i nodi 50 mlyneddiant statws Abertawe fel dinas a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2019. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys y canlynol; cerddoriaeth fyw, perfformiadau, bwyd stryd a gweithgareddau am ddim megis celf, barddoniaeth, drymio, reidiau a gemau, amgueddfa 50 mlynedd dros dro, sgysiau arddangosfa treftadaeth lleol, Ta'i Chi, tatŵs henna a pharc sglefrolio dros dro. Y nod oedd ymgysylltu â masnachwyr BAME, Mosg Abertawe, ysgolion lleol a chymunedau i ddathlu amrywiaeth diwylliannol St. Helen's Road a'u cyfraniad at y ddinas.

Astudiaeth Achos 10: Gwasanaethau Diwylliannol: Addewid Amrywiaeth

Rydym ni, drwy ein gwasanaethau diwylliannol, yn cymryd rhan y rhaglen beilot Ewropeaidd "Diwylliant mewn Dinasoedd Cynaliadwy", a arweinir gan Ddinasoedd Unedig a llywodraeth leol, sy'n ceisio gwreiddio diwylliant wrth greu dinasoedd cynaliadwy drwy ddysgu gan gymheiriaid a chydweithio. O ganlyniad i ymrwymadau Agenda 21, mae'r rhaglen wedi golygu ein bod yn gweithio tuag at naw ymrwymiad polisi craidd, i roi diwylliant wrth wraidd strategaethau ar gyfer cydweithio â dinasyddion a llywodraethau a chyfranogiad ganddynt, wrth greu dinas gynaliadwy; archwilio llywodraethu, hawliau diwylliannol, dysgu, cynllunio a chydraddoldeb i bawb. Mae ein gwaith hyd yn hyn wedi arwain at ymrwymiad i greu 'Addewid Amrywiaeth' sy'n amlinellu'r ffyrdd y gall cydgynhyrchu, cydweithredu a ffyrdd newydd o gyflwyno hybu mwy o gyfranogiad a mynediad at ddiwylliant yn ein dinas. Yn ystod mis Hydref 2019, cynhaliom sesiwn Dysgu gan Gymheiriaid a ganolbwyntiodd ar egwyddorion 'Addewid Amrywiaeth' yng nghyd-destun Abertawe, heriau a phwysau cyfredol, archwilio cyfleoedd i gyflawni'n hymrwymadau i'n holl ddinasyddion, yn enwedig y rheini yn y perygl mwyaf o gael eu heithrio oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig.

Astudiaeth Achos 11: Cyfnewid Ysgolion

Nod y prosiect yw mynd i'r afael â chamdybiaeth gymunedol drwy efelychu rhaglen ddogfen Channel 4, 'Great British School Swap', drwy fenter cydlyniant cymunedol i bobl ifanc 11 i 18 oed yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Nod arall y prosiect yw tyfu cyfalaf cymdeithasol ymhlith grwpiau gwahanol o bobl drwy archwilio gwahaniaethau diwylliannol a chymdeithasol gyda chwilfrydedd parchus drwy drafodaethau hyrwyddedig mewn rhaglen ddogfen a gaiff ei ffilmio. Diben y prosiect yw bod pobl ifanc ar draws rhanbarth Bae'r Gorllewin yn dysgu am eu hunain ac eraill o gefndiroedd, diwylliannau, ffydd a chymunedau gwahanol a darparu cyfleoedd diogel ar gyfer trafodaethau hyrwyddedig ar faterion cydlyniant cymunedol a rhoi cyfle i bobl ifanc dynnu sylw at y materion sy'n bwysig iddynt hwy a mynd i'r afael â'r materion hyn ar y cyd, gyda chwilfrydedd parchus. Cymerodd dros 50 o bobl ifanc a gwirfoddolwyr ran yn y sesiwn gyntaf ym mis Hydref 2019, lle cawsant eu hannog i nodi nodweddion tebyg a gwahanol ac i fynegi eu barn ar hil, crefydd, diwylliant a chefnidir cymdeithasol.

Astudiaeth Achos 12: A Better Welcome to Swansea - Mae'r prosiect 'A Better Welcome to Swansea' yn helpu i groesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches a hybu eu lles. Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Abertawe Dinas Noddfa a Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (CGGA) a ariennir gan

y Loteri Genedlaethol. Mae'r mentoriaid yn wirfoddolwyr hyfforddedig sy'n gallu helpu pobl i gael y pethau y mae eu hangen arnynt a'r hyn maent am ei wneud yn Abertawe. Er enghraifft; Dangos ac esbonio llwybrau bysus, manau rhad i siopa, gwybodaeth am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, eu helpu i gwrdd â phobl eraill a dod o hyd i bethau i'w gwneud er enghraifft, pêl-droed, canu, celfyddydau a helpu pobl i ddod o hyd i ddsbarthiadau Saesneg a chyfleoedd hyfforddiant a gwirfoddoli eraill.

Mae llawer iawn o waith eisoes wedi'i wneud drwy gydol dathliadau'r 50 mlwyddiant. Bydd y bwriad i hyrwyddo gweithgareddau yn y dyfodol yn 2020 yn sicrhau bod y materion pwysig hyn yn parhau i dderbyn sylw yn Abertawe a'i chymunedau. Bydd yn rhaid cyflawni hyn gyda'r adnoddau sydd gennym eisoes ac fel rhan o raglenni gwaith cyfredol ein timau.

Yn gyffredinol, gwnaed cynnydd da o ran dechrau mynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad yr Ymchwiliad Craffu. Bwriedir cynnal rhagor o weithgarwch dros y 12 mis nesaf i adeiladu ar y gwaith presennol ac er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith.

5.3 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AECau)

Mae AECau yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu ac rydym yn ceisio'u cwblhau cyn gynted â phosibl yn ystod unrhyw fenter - yn ddelfrydol ar y cychwyn. Mae cyllideb a rhaglen arbedion y cyngor yn destun proses AEC iawn.

Rydym yn parhau i ddefnyddio'n proses AEC gynhwysfawr, sydd hefyd yn ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), anghenion gofawr, cydlyniant cymunedol, tlodi, eithrio cymdeithasol a'r Gymraeg. Rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn hwylus i ddefnyddwyr, yn effeithiol ac yn ymarferol i gydweithwyr ym mhob rhan o'r cyngor. Mae gan gydweithwyr fynediad at gyfres o offer a chanllawiau ar-lein, o sgrinio goblygiadau cydraddoldeb yn gynnar i gwblhau AEC llawn. Mae'r Tîm Mynediad at Wasanaethau yn parhau i gydlynu cefnogaeth bwrpasol ar gyfer AECau drwy wybodaeth, cyngor a sicrhau ansawdd AECau.

Mae ein protocol Cydraddoldeb a Chynnwys (i sicrhau bod AECau yn cael eu holrhain a'u monitro drwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor) yn parhau i fod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb ac yr eir i'r afael â hwy lle bo angen.

[Parheir i gyhoeddi'r holl adroddiadau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ochr yn ochr ag adroddiadau corfforaethol perthnasol yma.](#)

5.4 Grŵp Staff y Cyngor Mewnol - Cynrychiolwyr Cydraddoldeb

Un o'r argymhellion allweddol a gafwyd yn adroddiad yr Ymchwiliad Craffu i Gydraddoldebau oedd egluro rolau a disgwyliadau i staff sy'n gweithredu fel

cynrychiolwyr cydraddoldeb a sicrhau eu bod yn cael eu cysylltu â sylfaen wybodaeth/rhwydwaith ehangach am gyngor, arweiniad a chefnogaeth. Mae'r rhwydwaith wedi parhau i gyfarfod eleni ac wedi derbyn rhagor o hyfforddiant gan Anabledd Cymru ar y Model Cymdeithasol Anabledd a sut gellir ei ddefnyddio'n ymarferol. Mae'r rhwydwaith hefyd wedi bod yn rhan o'r adolygiad o Hyfforddiant Corfforaethol ar Gydraddoldebau gydag awgrymiadau ynghylch cynyddu cyrhaeddiad yr hyfforddiant i staff nad ydynt yn defnyddio TG fel rhan o'u swydd ddyddiol a sut i wella'r wybodaeth am ymrwymiad y cyngor i gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn pecyn gwybodaeth i bob person sy'n ymgeisio am swydd.

5.5 Ymgynghori ac Ymgysylltu

Rydym yn parhau i ddatblygu'n perthynas â grwpiau cymunedol lleol drwy gynnwys preswylwyr, rhanddeiliaid eraill a gweithwyr yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. Rydym wedi diwygio'n hymagwedd at ymgynghori ac ymgysylltu ac wedi datblygu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ar gyfer 2020-23. Nod y strategaeth yw darparu fframwaith ar gyfer bodloni gofynion ymgynghori ac ymgysylltu'r cyngor dros y tair blynedd nesaf. Mae'n darparu arweiniad a chyfeiriad ar bryd y dylai'r cyngor ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, faint o ymgynghori ac ymgysylltu sy'n ofynnol, egwyddorion i'w hystyried wrth ymgynghori ac ymgysylltu a'r defnydd o ganlyniadau ymgynghoriadau ac ymgysylltu. Mae'r strategaeth wedi'i llunio i gefnogi, (nid disodli), prosesau ymgynghori ac ymgysylltu statudol a rheoliadol presennol, trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu hirsefydlog o fewn meysydd gwasanaeth, a threfniadau partneriaeth cyfredol. Lluniwyd Fframwaith Cydgynhyrchu Corfforaethol Strategol hefyd i gyd-fynd â'r Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu a'i chefnogi, fel un enghraifft o ddull ymgysylltu. Mae Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020-23 a'r Fframwaith Cydgynhyrchu Corfforaethol Strategol yn cael eu hystyried gan y Cabinet a'r cyngor ar hyn o bryd.

Eleni, mae pobl wedi cael y cyfle i fynegi eu barn ar amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys cyllideb y cyngor, ein Cynllun Cydraddoldeb strategol newydd, gofal plant a digonolrwydd cyfleoedd chwarae i blant a nodi'u lefelau boddhad cyffredinol â gwasanaethau'r cyngor. Yn ogystal, mae preswylwyr, staff a defnyddwyr gwasanaeth lleol hefyd wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn nifer o adolygiadau sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol megis yr Adolygiad Comisiynu Tai ac ailstrwythuro'r Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd. Rydym hefyd wedi hwyluso nifer o Sgyrsiau Mawr gyda phlant a phobl ifanc, pobl hŷn (50+ oed) a fforymau rhwng y cenedlaethau. Mae'r tîm Mynediad at Wasanaethau yn parhau i gynnig cyngor a chefnogaeth ynghylch ymgynghoriadau a gynhelir gan y Cyngor, gan gynnwys cefnogaeth mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau cydraddoldeb ac ymgynghori'n briodol â grwpiau anodd eu cyrraedd, gan gynnwys grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r amrywiaeth o ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu a'u cyrhaeddiad. Fel rhan o'n hymagwedd ymgynghori ac ymgysylltu ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, lluniom ddeunyddiau

darllen yn Gymraeg, Saesneg, Albaneg, Arabeg, Wrddw, Ffarsi, Mandarin a Thigrinia. Llunio hefyd fersiynau Hawdd eu Darllen a Hwylus i'w Darllen o ddogfennau, aethom i ddigwyddiadau hyrwyddol e.e. Digwyddiad Dathlu Deng Mlynedd CCUHP, hyrwyddom yr ymgynghoriad drwy gyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter) a darparom weithdy yn null 'hyfforddi'r hyfforddwr' i alluogi eiriolwyr i hybu trafodaeth a chyfranogiad gyda'r bobl, y grwpiau a'r cymunedau maen nhw'n eu cynrychioli a chynhaliom nifer o sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd lleol.

Rydym wedi parhau i ddatblygu'n perthynas â grwpiau cymunedol lleol:

➤ **Fforwm LGBT**

Parhaodd Fforwm LGBT Bae Abertawe i gwrdd yn ystod 2019-20 ac fe'i cefnogwyd gan Gyngor Abertawe mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys gweithwyr neu wirfoddolwyr o sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli buddiannau dinasyddion LGBT. Eleni cefnogodd y Fforwm LGBT ail ddigwyddiad Pride yn Abertawe a oedd yn llawer mwy ac yn llawer gwell na'r flwyddyn flaenorol. Gorymdeithiodd dros 1000 o bobl drwy ganol dinas Abertawe a chymerodd dros 5,000 o bobl ran yn y dathliadau.

Mae Grŵp LGBT+ staff y cyngor wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd i ddarparu rhwydwaith cymorth gan gymheiriaid ar gyfer staff LGBT+, cynyddu ymwybyddiaeth o faterion LGBT+ yn y gweithle a chodi arian ar gyfer elusennau LGBT+, gan gynnwys Diwrnod AIDS y Byd. Mae'r grŵp wedi archwilio'r syniad o gofnodi adnoddau gyda Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg er mwyn dechrau cofnodi hanes LGBT Abertawe a'r ffaith bod y cyngor wedi ennill achrediad gan Stonewall fel cyflogwr. Mae'r grŵp hefyd yn archwilio ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth o LGBT+ o fewn y cyngor, gan recriwtio rhagor o aelodau staff a hwyluso digwyddiadau cymdeithasol.

➤ **Fforwm BAME De-orllewin Cymru**

Rydym yn parhau i gefnogi gwaith Fforwm BAME rhanbarthol De-orllewin Cymru. Cynhaliodd Abertawe fforwm BAME llwyddiannus arall fel rhan o Raglen Ymgysylltu BAME Cymru Gyfan EYST, yr oedd dros 25 o unigolion a 9 sefydliad yn bresennol ynddo. Roedd cryn dipyn o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar yr wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb oedd ar ddod a rhannu syniadau a chynlluniau ar gyfer gweithgareddau.

Eleni lansiodd EYST hefyd rownd gyntaf Cynllun Mentora Llwybrau BAME i mewn i Fywyd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2019, a gydweddodd dros 25 o bobl i'w mentora â mentoriaid, gan gynnwys Vaughan Gething AS, Jane Hutt AS, a llawer mwy. Canfu gwerthusiad o'r rownd gyntaf fod 80% o'r bobl a gafodd eu mentora wedi dweud bod y rhaglen wedi cael effaith 'sylweddol' neu 'enfawr' ar eu dyheadau. Dechreuodd ail rownd o'r rhaglen ym mis hydref 2019, ac mae 25 o bobl eraill i'w mentora yn rhan

ohoni. Roedd y mentoriaid yn cynnwys yr Arglwyddes Monjulee Webb, Suzy Davies AC, a'r Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Caerdydd.

Eleni cefnogom EYST i gynnal cynllun chwarae yn yr haf a barhaodd am bythefnos ym mis Awst, gan ddenu 40 o blant. Roedd gweithgareddau'n cynnwys paentio cerrig, gwneud teisennau, cardiau, fframiau a modelau clai, cwrs rhwystr ac offer syrcau.

➤ **Grŵp Cyswllt Anableddau**

Diwygiwyd cylch gorchwyl y Grŵp Cyswllt Anableddau ac etholwyd Cadeirydd newydd. Mae'r grŵp wedi cytuno i gwrdd o leiaf 5 gwaith y flwyddyn a chaiff y cyfarfod ei gydgyhyrchu'n unol â Fframwaith Cydgyhyrchu Corfforaethol Strategol y cyngor. Mae'r grŵp wedi bod yn rhan o ymgynghoriad ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol y cyngor ar gyfer 2020-24 ac maent yn bwriadu gwneud rhagor o waith i gyfeirio'r camau gweithredu sy'n ategu'r amcanion cydraddoldeb a'r camau yn y cynllun.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Grŵp Cyswllt Anableddau i ddatblygu a gwella gwefan y cyngor a sicrhau ei bod yn hygyrch ac y bydd yn bodloni safon AA Consortiwm y We Fyd-eang erbyn mis Medi eleni. Mae'r gwelliannau a wnaed yn cynnwys ychwanegu arweiniad a luniwyd gan yr adran Iechyd i sicrhau bod staff yn gwybod sut i ysgrifennu ar gyfer darllynyddion sgrîn, mireinio termau chwilio a dogfennau gan gynnwys defnyddio gweddolenni ar wahân yn hytrach na dogfennau PDF.

5.6 Troseddau Casineb

Comisiynwyd Cymorth i Ddiodefwyr gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y digwyddiadau a throseddau casineb yr adroddir amdanynt ledled Cymru ac i gynnig cefnogaeth i ddiodefwyr y troseddau hyn. Drwy weithio gyda sefydliadau eraill megis yr Heddlu, mae Cymorth i Ddiodefwyr yn ceisio atal troseddau casineb pellach drwy ymyriadau penodol lleol a chenedlaethol. Caiff cefnogaeth ei theilwra i anghenion pob diodefwyr a all gynnwys cefnogaeth emosiynol, cefnogaeth ymarferol, eiriolaeth, cefnogaeth gydag adrodd wrth yr Heddlu am drosedd a mynd i'r llys. Adroddir am droseddau casineb yn syth i'r Heddlu neu'n gyfrinachol i Cymorth i Ddiodefwyr neu drwy'r wefan 'Report Hate Crime'. Mae copïau caled o ffurflenni i adrodd am droseddau casineb ar gael hefyd mewn Swyddfeydd Tai Rhanbarthol a lleoliadau eraill y cyngor.

Mae atal a lleihau troseddau casineb a Monitro Tyndra Cymunedol yn un o'r pum blaenoriaeth strategol a nodwyd yn Strategaeth Abertawe Mwy Diogel 2018-21. Yn unol â strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â throseddau casineb sef 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu LIC', nod Strategaeth Abertawe Mwy Diogel 2018-21 yw atal troseddau casineb, cefnogi diodefwyr a gwella'r ymatebion amlasiantaeth i'r broblem. Mae ein Cynllun Gweithredu Rhanddeiliaid Troseddau Casineb Abertawe yn cael ei reoli a'i fonitro o hyd

drwy'r Grŵp Rhanddeiliaid Troseddau Casineb a Grŵp Llywio Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel. Datgelodd ciplun o droseddau casineb yn Abertawe a gofnodwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2019 y cafwyd 171 o ddigwyddiadau yn Abertawe. Dosbarthwyd tri chwarter o'r holl ddigwyddiadau'n rhai 'hiliol'.

Eleni parhaom i gynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb drwy'r digwyddiad Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe. Roedd y digwyddiad yn rhan o wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2019. Y thema oedd 'Spread Love, Not Hate', a chyfle i fyfyrion ar gyd-destun gadael y DU ymhen fawr o dro a'r drafodaeth wleidyddol, ac yn y cyfryngau, yn ei gylch sy'n gynyddol rwygol. Roedd y digwyddiad yn cynnwys stondinau gwybodaeth, arddangosfeydd a gweithdai. Roedd y digwyddiad yn cynnwys gweithdai ar Islamoffobia yn ôl Rhyw, diffiniadau o Droseddau Casineb, adrodd am droseddau casineb a sut i ymdopi ag effeithiau Troseddau Casineb.

Ym mis Rhagfyr 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun grant ar gyfer Cymunedau Lleiafrol i fynd i'r afael â Throseddau Casineb. Nod y prosiect yw cefnogi grwpiau, sefydliadau crefyddol ac unigolion lleiafrifoedd ethnig ledled de a de-orllewin Cymru mewn perthynas â throseddau casineb, sut i'w hadnabod adrodd amdanynt a siarad o blaid eraill sydd wedi dioddef o droseddau casineb. Bydd yn cefnogi penodi hyrwyddwyr cymunedol a fydd yn gweithio fel pwyntiau cyswllt lleol o fewn eu cymunedau.

5.7 Cydlyniant Cymunedol

Rydym wedi parhau i roi rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru ar waith yn ystod 2019-20 drwy amrywiaeth o weithgareddau cydlyniant cymunedol lleol a rhanbarthol. Un o'r meysydd gwaith allweddol rydym wedi ymgymryd ag ef yw nodi a lliniaru tyndra cymunedol (troseddau casineb, eithafiaeth, pryder, ymddygiad gwrthgymdeithasol) sy'n gysylltiedig â Brexit. Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio Brexit sy'n cynnwys swyddogion o bob rhan o'r cyngor a gadeirir gan Arweinydd y Cyngor sydd hefyd yn arwain ar Ewrop ar gyfer CLILC. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r CLILC a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ymagwedd gyfunol a chyson ar draws llywodraeth leol Cymru mewn ymateb i Brexit. Yn ogystal, mae pob Pennaeth Gwasanaeth wedi cwblhau a dychwelyd Datganiad Gadael yr UE a Sicrwydd er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch pa mor barod ydynt ar gyfer Brexit ac maent wedi cymryd nifer o gamau gweithredu i liniaru'r risgiau posib i gadwyni cyflenwi, y gweithlu, gofal cymdeithasol, y cyflenwad bwyd i ysgolion, cyfathrebu a gwybodaeth a chydlyniant cymunedol.

Cynhaliom ddigwyddiad agored i ddinasyddion yr UE sy'n byw yn Abertawe er mwyn iddynt ddysgu am yr hyn y bydd Brexit yn ei olygu iddynt a chael cyfle i ofyn cwestiynau. Mae'r cyngor hefyd wedi datblygu gwedudalen ar Brexit ar wefan Cyngor Abertawe gan gyfeirio pobl i nifer o wefannau defnyddiol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu gwybodaeth ddefnyddio a swyddogol am Brexit. Rydym wedi cynnal arolwg cydlyniant cymunedol (Brexit) ar draws Bae'r Gorllewin i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ac i asesu effaith Brexit ar ein cymunedau'n well. Penodwyd Swyddog

Cydlyniant Cymunedol, rôl a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a rhan o'i rôl yw nodi unrhyw dyndra cymunedol a allai godi o ganlyniad i Brexit a chydlynu ymateb amlasiantaeth wrth ddatblygu atebion cymunedol i'r broblem. Mae'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol wedi sefydlu fforwm o bobl ifanc i gymryd rhan mewn prosiect 'Cyfnewid Ysgolion' ar draws rhanbarth Bae'r Gornllewin i ddysgu amdanynt hwy eu hunain ac eraill o wahanol gefndiroedd, diwylliannau, ffydd a chymunedau ac i ddarparu cyfleoedd diogel ar gyfer trafodaethau hyrwyddedig ynghylch materion cydlyniant cymunedol.

Rydym hefyd wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau eraill i hybu cydlyniant cymunedol yn Abertawe ac ar draws rhanbarth Bae'r Gornllewin, gan gynnwys hyrwyddo a chymryd rhan mewn diwrnodau agored mosgiau, gweithio gyda Fforwm Rhyng-ffydd Abertawe fel rhan o'i wythnos cynyddu ymwybyddiaeth ym mis Tachwedd 2019, cefnogi fforwm BAME EYST a hyrwyddo'r agenda LGBT+ a digwyddiad blynyddol Pride Abertawe. Cefnogom yr ŵyl Eid flynyddol a gynhaliwyd ym Mharc Singleton ac yr aeth dros 3,000 o bobl iddi. Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Heddlu De Cymru, Prifysgol Abertawe a'r Bwrdd Iechyd i gymryd rhan mewn hyfforddiant staff a hyrwyddo digwyddiadau cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol a chwaraeon megis y cwpan pêl-rwyd Cydlyniant Cymunedol i hybu cydlyniant cymunedol yn ein cymunedau.

5.8 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Rydym yn parhau i sicrhau bod Plant a Phobl Ifanc yn cael y cyfle i ymwneud â'r penderfyniadau a wneir gan y cyngor sy'n effeithio arnynt. Mabwysiadodd y cyngor Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn 2014, sy'n golygu bod yn rhaid i'r cyngor gyflawni ei holl swyddogaethau mewn modd lle darperir cyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â'u bywydau.

Erys y cyngor yn ymrwymedig i barchu Hawliau Dynol plant, y mae'r gwaith ar ei gyfer yn cael ei nodi yn ein Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc. Elfen fawr o hyn fu sicrhau bod addysg sy'n seiliedig ar hawliau effeithiol yn gynaliadwy pan fo angen adnoddau ariannol. Rydym yn parhau i weithio gydag ysgolion, UNICEF, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a chyda'r dysgwyr eu hunain, i ddatblygu modelau sydd fwyaf addas at y diben ac sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm.

Rydym wedi parhau i ledaenu gwybodaeth am CCUHP drwy amrywiaeth o fforymau, digwyddiadau a phrosiectau ledled Abertawe, gan gynnwys presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol ar-lein a dathlu'n 5ed Diwrnod Hawliau Plant Rhyngwladol yn Abertawe drwy gyflwyno'n gwaith i dros 100 o westeion o bob rhan o Gymru.

Rydym yn parhau i barchu hawl pob plentyn i gael dweud ei ddweud mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno drwy amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu sy'n rhan o'r Sgwrs Fawr. Yn ystod 2019-20, cynhaliwyd 9 Sgwrs Fawr, yr oedd 1152 o blant, pobl ifanc ac aelodau'r cyhoedd wedi cymryd rhan ynddynt. Eleni, ehangwyd ystod oed cyfranogwyr yn y Sgyrsiau Mawr o 11 i 18 oed i

50+ oed, gan gynnwys pobl hŷn mewn Fforymau Rhwng y Cenedlaethau. Roedd aelodau'r cyhoedd a grŵp y Rhwydwaith 50+, ynghyd â phreswylwyr o gartrefi gofal a chanolfannau dydd, wedi ymuno â phlant a phobl ifanc mewn gweithgareddau a thrafodaethau strwythuredig. Archwiliwyd materion allweddol gan gynnwys cyllideb y cyngor, hawliau plant, cyffredinrwydd a gwahaniaethau rhwng grwpiau oed gwahanol a thechnoleg gynorthwyol ddigidol.

Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- adolygu a diwygio'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn seiliedig ar adolygiad academaidd, ac ymgysylltu â phlant, pobl ifanc, teuluoedd, y cyhoedd ehangach, aelodau, staff y cyngor a phartneriaid ehangach,
- adolygiad o addysg sy'n seiliedig ar hawliau, gyda golwg ar ddatblygu dulliau cynaliadwy ac effeithiol i ddysgu am hawliau,
- adolygiad o ddulliau sy'n cyflawni'n dyletswydd statudol i gynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt (Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) (2010)) i sicrhau bod ymagwedd cyngor cyfan, sy'n addas ar gyfer cynnwys pawb, yn cael ei datblygu,
- cyhoeddi'r adroddiad Cynnydd Blynyddol, gan gynnwys argymhellion ar gyfer y dyfodol. Caiff ei gyhoeddi ar ôl i bob aelod o'r cyngor ei gymeradwyo.

5.9 Addysg ac ysgolion

Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gosod dyletswyddau gorfodol ar awdurdodau lleol a chyrrff cyfrifol eraill megis Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru i wella cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau dysgu. Rhagwelir y caiff ei rhoi ar waith o fis Medi 2021 ac mae'n cynrychioli newid sylweddol i natur y ddarpariaeth a'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) ac anableddau dysgu. Er na fydd y Ddeddf a'r côd ADYTA yn disodli dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010, ei nod yw cryfhau'r ddarpariaeth drwy gynyddu cyfranogaeth plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unigol cyfannol, a bydd yn berthnasol i blant o'r blynyddoedd cynnar hyd at 25 oed.

Rydym wedi gwneud cynnydd da i gychwyn wrth gynyddu ymwybyddiaeth a dechrau gwaith gydag asiantaethau eraill a'r rhanbarth i ddatblygu cynnig lleol integredig a fydd yn diwallu anghenion dysgwyr ag ADY ar draws yr ystod oed 0 i 25. Rydym wedi datblygu strategaeth a chynllun rhoi ar waith ADY ac wedi creu Grŵp Llywio Strategaeth ADY o randdeiliaid allweddol sy'n cynnwys rhieni/gofalwyr i oruchwylio rhoi'r strategaeth ar waith. Rydym hefyd yn arwain ar ddatblygu'r gweithlu ar gyfer Deddf ADYTA (Cymru) 2018 ar draws y rhanbarth drwy gydlyn cynllun hyfforddiant ar ei gyfer. Rydym hefyd yn ailstrwythuro timau ADY yn yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau y gallwn

ddiwallu anghenion dysgwyr mewn modd amserol ac adeiladu gallu ar gyfer ADY yn ein hysgolion a'n cyfleusterau addysgu arbenigol. Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar, y Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Er enghraifft, eleni, cyflwynwyd hyfforddiant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan staff Dechrau'n Deg a gweithwyr addysg proffesiynol i'r sector gofal plant preifat er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch Deddf ADYTA (Cymru) 2018 ac i ddatblygu perthnasoedd mwy cadarn rhwng ymarferwyr gofal plant ac ysgolion o ran trosglwyddiadau.

Yn ystod 2019-20 rydym wedi parhau i weithio gyda'r rhaglen Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth ac wedi cefnogi nifer o weithdai a digwyddiadau mewn ysgolion. Ariannom hyfforddiant penodol a ddarparwyd gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i ddysgwyr a staff yn ein hysgolion. Roedd y sesiynau hyn yn archwilio materion amrywiol sy'n ymwneud â hiliaeth, ystrydebu, terminoleg a dylanwad y cyfryngau. Cafwyd cynrychiolaeth dda o ysgolion yng ngwobrau blynyddol cystadleuaeth greadigol Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Roedd yno nifer o gategorïau, o ddylunio dillad ac ysgrifennu creadigol i gyfryngau digidol a dylunio posterï. Cefnogodd Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe'r fenter hon i gychwyn drwy wisgo crysau T gwrth-hiliaeth cyn cychwyn pob gêm ym mis Hydref 2019.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi lansio'i chanllawiau newydd ar fwlio. Mae bron pob ysgol yn Abertawe bellach yn defnyddio meddalwedd o'r enw My Concern i gofnodi materion diogelu, gan gynnwys pob achos o fwlio. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda My Concern i ddod o hyd i feddalwedd a fydd yn darparu trosolwg o'r holl ddigwyddiadau fel y gallwn gynllunio cefnogaeth yn unol â hyn. Rydym yn parhau i sicrhau bod ysgolion yn cael eu cyfeirio i arweiniad perthnasol gan Lywodraeth Cymru fel y gellir arfer hyn mewn ysgolion, er enghraifft, darparu cwnsela, cyngor a gwybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â chydraddoldeb ac unrhyw hyfforddiant perthnasol i staff, disgyblion a chyrff llywodraethu ysgolion. Caiff pob ysgol ei chyfeirio i ganllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru e.e. canllawiau bwlio diwygiedig, a chynigir gwasanaeth cwnsela yn ein holl ysgolion gan The Exchange.

5.10 Gwaith gyda Phobl Hŷn

Rydym wedi parhau i weithredu'r camau yng nghynllun gweithredu Cynllun Lles Abertawe i gyflawni un o'n hamcanion partneriaeth allweddol – Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda a sicrhau bod y gweithgarwch yn cyd-fynd â gwaith Heneiddio'n Dda.

Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda - gwaith y BGC

Eleni rydym wedi ailedrych ar y camau sy'n bodoli yn y Cynllun Lles dan yr amcan hwn i gadarnhau beth yw busnes fel arfer a pha gamau gweithredu fyddai'n elwa o ymagwedd ar y cyd. Rydym wedi mapio'r gwaith sy'n bodoli'n barod ar Heneiddio'n Dda a'i gynnwys yn y thema Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda i adlewyrchu'r man cychwyn a nodi meysydd gwaith yn y dyfodol. Mae'r

bartneriaeth wedi nodi tair blaenoriaeth: Dinas i Bawb, Teithio Llesol a Llythrennedd Iechyd. Mae gan bob blaenoriaeth weithgor penodol ynghyd â Swyddog Arweiniol enwebedig, cynllun gweithredu gyda chanlyniadau disgwylidig ac amserlenni. Mae gweithgor Dinas i bawb wedi bod yn mapio'r statws Dinas presennol a'u hymrwymiaidau cysylltiedig; yn nodi cyfleoedd, gorgyffyrddiadau a chyffredinedd gyda ffocws sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae'r gweithgor Teithio Llesol wedi cynnal archwiliad i nodi rhwystrau i deithio llesol ac mae wedi archwilio'r defnydd o'r model OPERAT (Offeryn Asesu Amgylchedd Allanol Man Preswyl Pobl Hŷn) i asesu addasrwydd amgylcheddau preswyl allanol ar gyfer pobl hŷn (65+ oed) a chanddynt alluoedd corfforol a gwybyddol gwahanol. Mae'r gweithgor Llythrennedd Iechyd wedi mabwysiadu rhestr wirio llythrennedd iechyd a rennir (sy'n canolbwyntio ar ddementia, smygu, heb siwgr, lle gwyrdd, Dechrau Gorau) ac yn archwilio a oes marc/safon ansawdd berthnasol.

Ein gwaith ni (y cyngor) gyda Phobl Hŷn

Mae'r cyngor wedi cychwyn fforymau Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda ar gyfer y grŵp oedran 50+ yn bennaf, ond sy'n agored i bawb. Cafwyd pum digwyddiad o'r fath, gyda'r gynulleidfa'n cynyddu bob tro, yn unol â'n strategaeth o ehangu ac amrywio'n cyrhaeddiad. Dewisir a phleidleisir dros bynciau gan aelodau cymunedol o amrywiaeth eang o grwpiau a chyfranogwyr unigol drwy ymgysylltiad ar-lein, sesiynau cymunedol a'n digwyddiad "Diwrnod Pobl Hŷn y DU". Mae'r fforymau canlynol eisoes wedi'u cynnal:

- Cynhwysiad Digidol a Chyfathrebu (Ebrill 2019)
- Iechyd a Lles (Mai 2019)
- Trafnidiaeth a Mynd o Le i Le (Gorffennaf 2019)
- Aros yn Ddiogel (Medi 2019)
- Materion Ariannol (Chwefror 2020)

Mae gwaith yn parhau i archwilio cynnwys ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau mewn sesiynau sefydlu staff, hyfforddiant parhaus, strategaethau ac offer asesu etc. ar draws y gwasanaethau i oedolion. Bydd adolygiad o'r Cynllun Ymgysylltu Heneiddio'n Dda yn cael ei gynnal dros yr ychydig fisoedd nesaf; bydd yn cynnwys themâu a nodau o Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn ddiwygiedig Llywodraeth Cymru a gaiff ei chyhoeddi'n fuan a hefyd flaenoriaethau allweddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae ein Tîm Cyfnodau Bywyd yn parhau i weithio gyda swyddfa'r Comisiynydd i gefnogi gwaith ac ymgyrchoedd cyfredol fel #OedraniaethBobDydd etc.

Cenedlaethau sy'n Ystyriol o Ddementia - Prosiect Gofal Integredig a ariennir

Ysgolion sy'n Ystyriol o Ddementia:

Mae'r prosiect wedi cynnwys prosiect adrodd straeon digidol cydweithredol â'r nod o ddod â phobl ifanc a phobl hŷn ynghyd yn Abertawe. Creodd y prosiect hwn ddealltwriaeth o ddementia a bu'n archwilio'r problemau ynghylch bod yn ifanc ac yn hen, gan helpu pobl i ddysgu gan ei gilydd a dathlu'r adegau

hynny drwy ddod o hyd i straeon a'u hadrodd. Cyflwynodd y prosiect gyfres o sesiynau gwybodaeth Ffrindiau Dementia i staff addysgu a disgyblion mewn ysgolion peilot cynradd ac uwchradd. Ar ddiwedd y prosiect, dyfarnwyd statws Ysgol sy'n Ystyriol o Dementia i Ysgol Gyfun Pontarddulais ac fe'i cydnabuwyd yn swyddogol gan y Gymdeithas Alzheimer. Hon yw'r ysgol gyntaf yn Abertawe i dderbyn y wobwr hon. Cyrhaeddodd y prosiect restr fer gwobr gofal cymdeithasol hefyd. O ganlyniad i'r prosiect Gofal Integredig a Ariennir llwyddiannus, mae 7 yn rhagor o ysgolion cynradd a 2 ysgol gyfun yn gweithio tuag at statws Ysgol sy'n Ystyriol o Dementia

Cartref sy'n Ystyriol o Dementia:

Fel rhan o elfen Cartrefi sy'n Ystyriol o Dementia y prosiect, *People Speak Up (PSU)* a *Sound Memories Radio*, cyflwynom brosiect peilot Cenedlaethau sy'n Ystyriol o Dementia sef '*To be in the Now*'. Prosiect hanes bywyd a oedd yn cynnwys dementia oedd hwn i rymuso 4 o bobl hŷn sy'n byw yn Abertawe, eu teuluoedd a'u gofaluwr i wella cyfathrebu cymunedol, gwydnwch a chysylltedd a galluogi pobl hŷn sy'n byw â dementia i fod yn rhan o'r ateb.

Gweithiom ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, People Speak Up, Tîm Adnoddau Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cydlynwyd Ardaloedd Lleol a Chanolfan Gofaluwr Abertawe. Atgyfeiriwyd cyfranogwyr a'u teuluoedd i'r prosiect hwn, a chynhaliwyd cyfarfodydd/sesiynau. Roedd sawl cyfranogwr wedi cynhyrchu calendr cof a fideo erbyn diwedd y prosiect peilot.

5.11 Tlodi

Mae Trechu Tlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol ac yn un o bum amcan allweddol yn ein Cynllun Corfforaethol. Eleni, diwygiom y cylch gorchwyl ar gyfer Fforwm Tlodi Abertawe a chytunom ar dri maes blaenoriaeth i'w cyflawni yn 2019/20. Roedd y blaenoriaethau'n cynnwys: cyflogadwyedd, cynhwysiad ariannol a defnyddio data i dargedu cefnogaeth er mwyn trechu tlodi. O ran cyflogadwyedd, rydym yn parhau i ddatblygu sesiynau cyflogadwyedd (Cyn blwyddyn 10) mewn ysgolion ynghyd â chysylltiadau ag ysgolion. Rydym yn llunio fframwaith sy'n cysylltu â chyflogadwyedd sy'n cynnwys profiad gwaith ar draws gwahanol sectorau. Mae gwaith yn parhau hefyd i ddatblygu Diwrnodau Gyrfaoedd Creadigol a chefnogi datblygiad llwybrau cyflogaeth i ddiwydiannau creadigol. Lansiodd ym 2019 "Fy newis" ym mis Medi 2019 â'r nod o alluogi pob disgybl sy'n gadael yr ysgol i weld yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae gwaith newydd gychwyn i ddatblygu rhaglen 8 wythnos o wirfoddoli a lleoliadau gwaith ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae gwaith yn parhau hefyd o ran datblygu hybiau a chyflogadwyedd ac argaeledd cefnogaeth ehangach mewn cymunedau/hwb canolog.

O ran cynhwysiad ariannol, rydym yn un o 4 awdurdod lleol yn y DU a ddewiswyd i gymryd rhan mewn rhaglen beilot sef Rhaglen Cymorth Mewn Argyfwng Gyd-drefnedig. Nod y rhaglen yw cydlynu cefnogaeth mewn argyfwng i bobl sy'n wynebu argyfwng ariannol ac atal argyfwng rhag digwydd eto. Mae gwaith wedi dechrau i fapio cefnogaeth a darpariaeth ar gyfer

argyfyngau yn yr ardal leol, asesu'r gallu i gydlynu a datblygu adnoddau rhaglen e.e. hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth. Mae'r Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi hefyd wedi datblygu Polisi Credyd Fforddiadwy a Pholisi Dyled Corfforaethol drafft. Nod y polisi Dyled Corfforaethol yw darparu ymagwedd glir a chyson ar draws y cyngor wrth iddo fynd ar drywydd dyledion, sy'n gadarn ond yn deg, a'r nod yw atal preswylwyr sydd mewn trafferthion ariannol rhag cronni dyledion niferus a bod mewn dyled i'r cyngor. Mae'r Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi hefyd wedi adolygu amrywiaeth o lythyrau gan y cyngor a anfonwyd at breswylwyr ynglŷn â dyledion, â'r nod o symleiddio'r broses ac annog preswylwyr i dderbyn cynigion cynnar o help a chefnogaeth. Rydym hefyd yn y broses o gynnal Adolygiad Comisiynu Cynhwysiad Ariannol â'r nod o gynnal gwiriadau budd-daliadau a chynghor ar arian i breswylwyr ar gamau bywyd amrywiol e.e. genedigaeth plentyn neu brofedigaeth.

O ran defnyddio data a gwybodaeth i fynd i'r afael â thlodi, rydym wedi adeiladu ar ein gwaith blaenorol o ddefnyddio data a gwybodaeth i dargedu cefnogaeth. Rydym wedi cydweithio ag adrannau ar draws y cyngor i dargedu carfannau penodol amrywiol o bobl, teuluoedd ac aelwydydd (e.e. cyplau oed cymysg, rheini unigol ac aelwydydd incwm isel) a allai elwa o wybodaeth a chynigion o gefnogaeth benodol sy'n ymwneud â'u hamgylchiadau fel a nodwyd yn set ddata'r Detholiad Budd Aelwyd Sengl. Rydym wedi gweithion gyda'r Is-adran Refeniw a Budd-daliadau ynghyd â gwasanaethau eraill megis y Tîm Hawliau Lles, y Tîm Cyflogadwyedd a'r Gwasanaethau Adnoddau Teuluoedd i gynyddu ymwybyddiaeth a thargedu cefnogaeth.

Eleni sefydlom Gomisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe. Nod y Comisiwn Gwirionedd Tlodi yw dod â phenderfynwyr allweddol a phobl sy'n byw mewn tlodi ynghyd i weithio gyda'i gilydd er mwyn ceisio goresgyn tlodi. Mae'r comisiwn yn ceisio sicrhau bod pobl sydd wedi profi tlodi'n uniongyrchol yn ganolog i'r broses benderfynu Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe yw'r cyntaf yng Nghymru. Dewiswyd CGGA fel y sefydliad cynnal ar gyfer y Comisiwn Gwirionedd Tlodi. Mae grŵp cychwynnol ar waith gyda phartneriaid, y cyngor a chynrychiolwyr cymunedol. Mae is-grŵp cyllid wedi bod yn gweithio ar sicrhau'r arian sydd ei angen er mwyn i'r tîm cyflwyno roi'r comisiwn ar waith.

5.12 Hawliau Lles

Mae'r Tîm Hawliau Lles wedi parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau lles yn Abertawe a gwybodaeth amdanynt drwy gyflwyno hyfforddiant i staff, darparu llinell gyngor, cynrychioli pobl mewn apeliadau, gwaith achos cymhleth, llunio cyhoeddiadau a chanllawiau hunangymorth a gwaith polisi. Yn ystod 2019/20 cyflwynwyd hyfforddiant i 262 o gyfranogwyr gan y Rhaglen Hyfforddiant Hawliau Lles a darparwyd llinell gyngor dridiau'r wythnos. Yn ystod 2019/20 cynrychiolodd y timau 76 bobl mewn apeliadau (roedd 72 yn llwyddiannus), darparwyd cyngor mewn perthynas ag 881 o ymholiadau a chodwyd £1,416,282.43 yn gyffredinol.

Mewn llawer o'r achosion, mae gwaith y tîm wedi atal gorfodi achosion troi allan ac wedi lleihau ôl-ddyledion rhent a threth y cyngor. Mae hyn wedi effeithio ar ein holl wasanaethau, gan gynnwys y gwasanaethau Plant a Theuluoedd gan nad yw'r plant mewn perygl mwyach. Mewn rhai achosion mae dyfarnu budd-dal anabledd nid yn unig yn cynyddu incwm ond hefyd yn atal hawl wyr rhag newid i Gredyd Cynhwysol yn y tymor byr, a phan wnânt hynny, byddant yn derbyn cryn dipyn yn fwy o incwm wrth symud ymlaen. Mae tan-hawlio budd-daliadau yn parhau i fod yn broblem enfawr ac mae aelwydydd sydd wedi'u heffeithio gan ddiwygiadau lles mewn perygl o ddod yn ddefnyddwyr sy'n dibynnu'n helaeth ar ein gwasanaethau costus, lle gallai cynyddu eu hincwm yn effeithiol leihau eu problemau.

5.13 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae'r Grŵp Partneriaeth Strategol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi adolygu'r amcanion yn y strategaeth ac wedi sefydlu camau gweithredu ar gyfer 2019/20. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sy'n gweithio gyda phobl ifanc i sicrhau bod ganddynt berthnasod iach, diogel a chyfartal.

Mae Canolfan Cam-drin Domestig Abertawe yn parhau i gefnogi plant a'u teuluoedd ac yn defnyddio 'dull teulu cyfan' o gefnogi. Mae'r ganolfan hon yn sicrhau ymateb mwy cymesur a llwybr at Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd yr heddlu a roddir ar ôl i heddlu gael eu galw allan i ddigwyddiad. Gan na fyddai mwyafrif llethol yr atgyfeiriadau o reidwydd wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol, mae'r ganolfan yn helpu i gydlynu gwaith ymyrryd yn gynnar, ataliaeth a gwasanaethau cymorth i deuluoedd. Mae'r datblygiad hwn yn cael ei ategu gan siop dan yr unto newydd ar gyfer Cam-drin Domestig, sydd ar gael i unrhyw un (benyw neu wryw) sydd wedi dioddef cam-drin domestig nawr neu yn y gorffennol, neu unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth a chefnogaeth.

Mae'r Siop Dan yr Unto Cam-drin Domestig yn parhau i ddatblygu ei gwasanaethau drwy ymagwedd bartneriaeth amlasiantaethol. Mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar draws y continwrm angen, o gyfleuster galw heibio brys i'r Rhaglen Rhyddid, y Rhaglen Feithrin a sesiynau coffi a chrefftau. Mae cymorthfeydd ar gael ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys cyngor cyfreithiol, cyngor ar gamddefnyddio sylweddau ac ar ddyled. Caiff gwasanaethau'r Siop Dan yr Unto eu monitro gan y Grŵp Partneriaeth sy'n ceisio darparu gwasanaethau ar gyfer amrywiaeth o anghenion gofal, o ataliaeth ac argyfyngau i ôl-ofal, ac maent ar gael i bob aelod o'r gymuned. Mae gwaith ar y gweill i ystyried rhoi cefnogaeth benodol ar waith ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd a rhai o'r gymuned LGBT.

Mae adolygiad comisiynu Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot o'r ddarpariaeth ar gyfer cam-drin domestig ar y gweill gyda'r nod o sicrhau bod y modelau darparu gwasanaeth o ansawdd da, yn gynaliadwy'n ariannol, ac yn bodloni gofynion strategol a deddfwriaethol. Bydd ffocws yr adolygiad yn ystyried y pum ffordd o weithio ac yn sicrhau ein bod yn datblygu prosesau

casglu data cadarn ar draws y gwasanaethau i dystiolaethu effaith ac i sicrhau y ceir dealltwriaeth barhaus o grwpiau cleientiaid ac anghenion cleientiaid. Bydd gweithgor yn sefydlu pecyn hyfforddi ac amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith. Yn 2019/20, datblygwyd cytundeb partneriaeth newydd gyda defnyddwyr y gwasanaeth i gytuno ar ffordd o weithio sy'n sicrhau y gall pobl gael y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn, i'w galluogi hwy a'u teulu i deimlo'n ddiogel a pheidio â bod ag ofn, nawr ac yn y dyfodol.

Cynhaliodd y Bartneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) eu digwyddiad Diwrnod Rhuban Gwyn blynyddol i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd o faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod. Cefnogwyd a mynychwyd y digwyddiad gan ASau, Cynghorwyr, yr Elyrch, y Gweilch ac ystod o wasanaethau cyhoeddus.

5.14 Fersiwn Hawdd ei Darllen

Y llynedd, fe gyhoeddom ni ein hadolygiad blynyddol mewn tri fformat:

- adroddiad llawn
- crynodeb
- fersiwn hawdd ei darllen.

Byddwn yn gwneud yr un peth eleni i sicrhau bod yr wybodaeth mor hygyrch â phosibl.

5.15 Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (GCDC)

O ganlyniad i'n haelodaeth o bartneriaeth GCDC, mae gennym ymagwedd gydlynol at bob math o ddehongli a chyfieithu, gan gynnwys darpariaeth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Nid yw hyn yn cynnwys cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewnol gan ein huned gyfieithu.

Y pum iaith bennaf y gofynnwyd amdanynt yn 2018 – 2019 oedd:

1. Arabeg
2. Pwyleg
3. Cwrdeg (Sorani)
4. Bengaleg
5. Rwmaneg

5.16 Gwefan

Mae'r Gwasanaethau Digidol yn defnyddio Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG 2.1) i'n helpu i wneud gwefan Cyngor Abertawe'n hygyrch. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio sut i wneud cynnwys gwe yn fwy hygyrch i bobl ag anabledau, ac yn hawdd i bawb ei defnyddio.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys tair lefel o hygyrchedd (A, AA ac AAA) a lefel AA yw'r targed ar gyfer gwefan Cyngor Abertawe. Ein bwriad yw sicrhau nad oes unrhyw jargon ar y wefan, a'i fod yn cynnwys Cymraeg a Saesneg clir a syml, a'i fod yn hawdd ei chwilio ac yn cyflwyno gwybodaeth mewn trefn

resymegol. Mae Tîm y We'n rhoi cefnogaeth i olygyddion y we ac yn darparu arweiniad ysgrifenedig trwy borth y staff (Staffnet) i sicrhau bod y tudalennau wedi'u hysgrifennu'n glir a'u bod yn gyson. Yn dilyn gwaith a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe ar sut i lunio fersiynau hawdd eu darllen a Saesneg clir, mae gwybodaeth ar gael erbyn hyn ar Staffnet y gall staff gyfeirio ati.

Mae gwasanaethau digidol yn hyrwyddo cyrsiau cyfrifiadur a thabled am ddim i ddechreuwr yn Abertawe sydd wedi'u cynllunio a'u cefnogi gan y Cydlynnydd Cynhwysiad Digidol a'u cyflwyno gan diwtoriaid Dysgu Gydol Oes. Mae'r cyrsiau hyn yn darparu cyflwyniad sylfaenol i ddefnyddio dyfais a chyrchu'r rhyngwrdd ac maent yn darparu gwybodaeth am sut i gadw data personol ac ariannol yn ddiogel. Rhan bwysig o'r cwrs yw dysgu'r cyfranogwyr sut i gael gafael ar fargeinion arbed arian sydd ar gael ar-lein yn unig, er enghraifft, newid darparwr ynni, sy'n cefnogi agenda gwrth-dlodi'r cyngor. Yn 2019/2020 dilynwyd y cyrsiau gan 302 o bobl, gan ragori ar y targed o 300. Gwnaed cais llwyddiannus i The Good Things Foundation am grant er mwyn cymryd rhan yn rhaglen Skills for Tomorrow BT, i helpu preswylwyr gydag amrywiaeth o sgiliau digidol drwy gyrsiau Learn My Way, o ddefnyddio bysellfwrdd a llygoden i greu CV a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gadw mewn cysylltiad ag eraill. Ar hyn o bryd, ystyrir bod y perygl o eithrio digidol yn Abertawe yn isel.

Mae Tîm y We hefyd yn helpu i hyrwyddo ymgyrchoedd cydraddoldeb ar draws y cyngor, gan gynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb bob blwyddyn ac elfennau o gydlyniant cymunedol. Roedd rhan o hyn yn cynnwys diweddariadau dyddiol o 18 Mawrth a hefyd gynhyrchu tudalennu cyngor ar Coronafeirws yn gyflym i gefnogi preswylwyr a oedd yn gwarchod yn ogystal â'r gymuned ehangach. Rhoddwyd cefnogaeth i ail Wyl Ddysgu Abertawe drwy ei hyrwyddo â hysbysebion ar-lein yn ogystal â hwyluso'r trefniadau llogi ar gyfer sesiynau amrywiol. Diweddarwyd y tudalennau lles lleol gyda dogfennau hawdd eu darllen a'u hyrwyddo'n allanol ac i staff gan ddefnyddio gwe-faneri, a throsglwyddwyd gwybodaeth hefyd fel y gallai'r tîm Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda ddefnyddio system swmp e-byst i anfon eu cylchlythyrau rheolaidd eu hunain i'w rhestr e-bost.

Parhaodd staff o'r gwasanaethau Digidol i weithio gyda'r tîm Cyfathrebu a Safonau Masnach i gynyddu ymwybyddiaeth o beryglon gweithredoedd twyllodrus (gan gynnwys diweddariadau ar weithredoedd twyllodrus cyfredol yn Abertawe). Darperir gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd gan y Swyddog Diogelwch Gwybodaeth i staff am sut i ddiogelu eu data eu hunain a data defnyddwyr gwasanaeth ar-lein ac all-lein.

Dechreuodd gwaith ar wefan newydd y cyngor ac mae Rheolwr y We yn gweithio gyda Mynediad at Wasanaethau. Cyfarfu yntau â'r grŵp Cyswllt Anabledd ym mis Rhagfyr ac ar ddechrau mis Ionawr 2020 i gael cyngor ac arweiniad. Ailfrandiwyd Partneriaeth Gorllewin Morgannwg a chrëwyd gwefan newydd i gyd-fynd â hyn, ac mae prawf hygyrchedd llawn yn cael ei wneud gan Ymddiriedolaeth Shaw ar hyn o bryd fel rhan o hyn.

6. Sylwadau i gloi

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'n galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod blwyddyn olaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ar gyfer 2016-20. Gwnaed cynnydd yn erbyn ein holl Amcanion Cydraddoldeb ac mae faint o wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid i ni ei darparu yn ychwanegol at ein Hamcanion Cydraddoldeb yn parhau i gynyddu, sy'n gadarnhaol iawn. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a hawliau dynol a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud, yn enwedig wrth i ni ddathlu deng mlynedd o hyn ac ailddatgan ein hymrwymiad i fod yn Ddinas Noddfa. Cymeradwywyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) newydd ar gyfer 2020-24 gan y cyngor ym mis Ebrill 2020. Mae'r cynllun newydd hwn yn adeiladu ar y gwaith rydym eisoes wedi'i wneud a'r gwersi a ddysgwyd ac mae'n amlinellu'n gweledigaeth a'n huchelgais i gynnal a chryfhau ein hymagwedd at sicrhau bod materion cydraddoldeb wedi'u gwreiddio yn ein proses gwneud penderfyniadau a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i bobl leol.